27AIN O CHWEFROR

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

Croeso nol i bawb ar ôl y gwyliau Pasg. Gobeithio bo pawb wedi mwynhau ac wedi cael cyfle i ymlacio.

**Dydd Gŵyl Dewi**

Dydd Llun, yr 2il o Fawrth byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn cynnal ein Eisteddfod Ysgol. Croeso i'r plant wisgo coch, gwisg draddodiadol Gymreig neu unrhyw ddillad sy'n cynrychioli Cymru ar y diwrnod arbennig hwn. Edrychwn ymlaen at ddathlu gyda'n gilydd.

**Diwrnod y Llyfr**

Dydd Iau, y 5ed o Fawrth, byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr yn yr ysgol. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 ar Parent Pay. Gofynnwn i bawb ddod i'r ysgol yn eu dillad gwely ac i ddod a'i hoff lyfr i'w ddarllen cyn mynd i'r gwely. Bydd cyfle i rannu ein hoff lyfrau gyda'i ffrindiau, yn ogystal â gweithdai gydag ymwelwyr cyffrous.

**Eisteddfod Ddawns**

Pob hwyl i grŵp dawnsio gwerin Blwyddyn 5 a'r unigolion fydd yn cystadlu o'r ysgol yn yr Eisteddfod Ddawns nos Fercher, y 4ydd o Fawrth. Rydym yn falch iawn o bob yr un ohonoch.

**Gwasanaeth Perfformio**

Roedd yn hyfryd heddiw i glywed pawb yn perfformio darnau'r Urdd yn ein Gwasanaethau Perfformio. Rydym wedi bod wrthi yn dysgu'r darnau llefaru a'r unawd i bob plentyn yn yr ysgol ac mae pawb wedi cael cyfle i gystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu ar ddydd Sadwrn y 7fed o Fawrth.

## Calendr

**Eisteddfod Ddawns, Ysgol Fitzalan 4/3/26**

**Eisteddfod Cylch, Ysgol Plasmawr 7/3/26**

**Eisteddfod ysgol 2/3/26**

**Diwrnod y Llyfr 5/3/26**

## Caffi'r Urdd

Ry'n ni'n chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu yng nghaffi'r Eisteddfod Cylch a gynhelir yn Ysgol Plasmawr ddydd Sadwrn 7 Mawrth

Os gallwch roi 30 munud neu 1 awr o'ch amser, byddem yn ddiolchgar iawn.

P'un a allwch dywallt te a choffi neu weini cacennau a brechdanau, byddem wrth ein bodd yn eich cael yn rhan o'r tîm.

Rhowch eich enw ar y rhestr amserlen os gallwch helpu **signup.com/go/vpdtZso** - diolch yn fawr!Ydych chi'n mwynhau pobi?

Ry'n ni'n chwilio am gacennau i'w gwerthu yn ystod yr Eisteddfod Cylch. Os hoffech gyfrannu, anfonwch e-bost at ffrindiautreganna@gmail.com, a dewch â'ch cacennau i dderbynfa'r ysgol erbyn bore dydd Gwener 6 Mawrth. Diolch am eich cefnogaeth!

## Gwisg Ysgol ar gyfer yr Eisteddfodau

Hoffem eich atgoffa y bydd angen i bob plentyn sy'n cynrychioli Ysgol Treganna yn yr Eisteddfod Cylch yr wythnos nesaf wisgo gwisg ysgol Ysgol Treganna (dim hoodies, os gwelwch yn dda).

Manylion y wisg:

Sgert neu drowsus llwyd (dim siorts)

Sanau gwyn hyd at y ben-glin

Esgidiau du (dim trainers)Crys polo melyn

Siwmper las

Os oes unrhyw broblem neu ymholiad, cysylltwch gyda'r ysgol.Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

## Parcio yn ddiogel

Gofynnwn yn garedig i'n rhieni a'n gwarcheidwaid barcio'n ofalus wrth ymyl yr ysgol.

Cofiwch barcio mewn mannau diogel yn unig, a pheidiwch â pharcio mewn llefydd sydd wedi'u dynodi ar gyfer busnesau lleol na mannau sydd wedi'u gwahardd.

Mae'n hynod bwysig ein bod yn gwneud hyn er mwyn sicrhau diogelwch ein cymuned ysgol gyfan.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus.

## Nosweithiau Rhieni

## 17eg a'r 18fed o Fawrth

Fe fydd apwyntiadau Noson Rieni yn mynd yn fyw nos Wener am 3.30.

Bydd angen i chi fwcio eich apwyntiadau drwy ap newydd yr ysgol ARBOR.

Mae'n hanfodol eich bod wedi lawrlwytho'r ap erbyn heddiw fan hwyraf.

Os byddwch yn wynebu unrhyw anawsterau yn y cyfamser, ffoniwch yr ysgol.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
Wyt ti'n gwybod…? Ydych chi'n gwybod…?
Ydw/ Nac ydw
Oeddwn/ Nac oeddwn
**Her**
Credwch chi fyth bod…?

**Testun trafod yr wythnos**
Pan dwi'n gwylio'r teledu, does dim yn well na…

**Cân yr wythnos**
Taran - Neidio

**Idiom yr wythnos**
Yn cerdded ling di long